



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2014 Rhif 1462 (Cy. 143)

2014 No. 1462 (W. 143)

ADDYSG, CYMRU

EDUCATION, WALES

**Rheoliadau Addysg (Ymgynghori
ar Ddyddiadau Tymhorau Ysgol)
(Cymru) 2014**

**The Education (Consultation on
School Term Dates) (Wales)
Regulations 2014**

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

(This note is not part of the Regulations)

Mewnosodwyd adrannau 32A i 32C i Ddeddf Addysg 2002 gan adran 42 o Ddeddf Addysg (Cymru) 2014 ac mae'n gwneud darpariaeth mewn perthynas â phennu dyddiadau tymhorau ysgol a sesiynau ysgol ar gyfer ysgolion a gynhelir yng Nghymru.

Sections 32A to 32C were inserted into the Education Act 2002 by section 42 of the Education (Wales) Act 2014 and make provision in relation to fixing school term dates and school sessions for maintained schools in Wales.

Mae adran 32B yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo awdurdod lleol neu gorff llywodraethu ysgol wirfoddol a gynorthwyir neu ysgol sefydledig i benderfynu ar y dyddiadau tymhorau ysgol hynny a bennir yn y cyfarwyddyd.

Section 32B provides that the Welsh Ministers may direct a local authority or governing body of a voluntary aided or foundation school to determine such school term dates as are specified in the direction.

Cyn gwneud unrhyw gyfarwyddyd o'r fath mae adran 32B(3) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gynnal unrhyw ymgynghoriad sy'n briodol yn eu barn hwy. Mae adran 32AB(4) yn darparu ymhellach y caiff Gweinidogion Cymru wneud unrhyw ddarpariaeth ynghylch yr ymgynghoriad hwnnw y maent yn ei hystyried yn briodol.

Before making any such direction section 32B(3) requires the Welsh Ministers to carry out such consultation as they think appropriate. Section 32B(4) further provides that the Welsh Ministers may make such provision about that consultation as they consider appropriate.

Yn unol â hynny, mae'r Rheoliadau hyn yn nodi cyfnod a dull yr ymgynghoriad gan gynnwys pa bryd nad oes angen ymgynghoriad o bosibl (rheoliad 3 a'r Atodlen) ac â phwy y mae rhaid ymgynghori (rheoliad 4).

Accordingly, these Regulations set out the period and method of the consultation including when a consultation may not be required (regulation 3 and the Schedule) and who must be consulted (regulation 4).

2014 Rhif 1462 (Cy. 143)

2014 No. 1462 (W. 143)

ADDYSG, CYMRU

EDUCATION, WALES

**Rheoliadau Addysg (Ymgynghori
ar Ddyddiadau Tymhorau Ysgol)
(Cymru) 2014**

**The Education (Consultation on
School Term Dates) (Wales)
Regulations 2014**

Gwnaed 4 Mehefin 2014

Made 4 June 2014

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol
Cymru* 6 Mehefin 2014

Laid before the National Assembly for Wales
6 June 2014

Yn dod i rym 2 Medi 2014

Coming into force 2 September 2014

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 32B a 210 o Ddeddf Addysg 2002(1), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

The Welsh Ministers in exercise of the powers conferred on them by sections 32B and 210 of the Education Act 2002(1) make the following Regulations:

Enwi, cychwyn a chymhwysio

Title, commencement and application

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Ymgynghori ar Ddyddiadau Tymhorau Ysgol) (Cymru) 2014 a deuant i rym ar 2 Medi 2014.

1.—(1) The title of these Regulations is the Education (Consultation on School Term Dates) (Wales) Regulations 2014 and they come into force on 2 September 2014.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(2) These Regulations apply in relation to Wales.

Dehongli

Interpretation

2. Yn y Rheoliadau hyn—

2. In these Regulations—

mae i “awdurdod esgobaethol priodol” yr un ystyr ag “appropriate diocesan authority” yn adran 142(1) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998;

“the 2002 Act” (“*Deddf 2002*”) means the Education Act 2002;

“appropriate diocesan authority” (“*awdurdod esgobaethol priodol*”) has the same meaning as in section 142(1) of the School Standards and Framework Act 1998;

(1) 2002 p. 32. Mewnosodwyd adran 32B gan adran 42 o Ddeddf Addysg (Cymru) 2014 (dccc 5). Diwygiwyd adran 210(7) gan adran 21(3)(c)(i) a (ii) o Fesur Teithio gan Deithwyr (Cymru) 2008 (mccc 2). Trosglwyddwyd swyddogaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 210 i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

(1) 2002 c. 32. Section 32B was inserted by section 42 of the Education (Wales) Act 2014 (anaw 5). Section 210(7) was amended by section 21(3)(c)(i) and (ii) of the Learner Travel (Wales) Measure 2008 (nawm 2). The function of the National Assembly for Wales under section 210 was transferred to the Welsh Ministers by paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006 (c. 32).

ystyr “corff crefyddol priodol” (“*appropriate religious body*”) yw—

- (a) yn achos un o ysgolion yr Eglwys yng Nghymru neu un o ysgolion yr Eglwys Gatholig Rufeinig, neu ysgol arfaethedig o’r fath, yr awdurdod esgobaethol priodol, a
- (b) yn achos ysgolion eraill neu ysgolion arfaethedig eraill, y corff sy’n cynrychioli’r grefydd neu’r enwad crefyddol a nodir, neu y bwriedir iddo gael ei nodi, mewn perthynas â’r ysgol mewn gorchymyn o dan adran 69(3) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998;

ystyr “Deddf 2002” (“*the 2002 Act*”) yw Deddf Addysg 2002.

Ymgynghori

3.—(1) Rhaid i gyfnod a dull ymgynghori Gweinidogion Cymru fod yn unol â’r tabl yn yr Atodlen.

(2) Yn achos amheuaeth o ran y dyddiad y cafodd Gweinidogion Cymru hysbysiad am y digwyddiad neu’r amgylchiadau a arweiniodd at y cyfarwyddyd tybir mai’r dyddiad yw’r dyddiad hwnnw y penderfynir yn rhesymol arno gan Weinidogion Cymru.

(3) Pan fo rhes 5 o’r tabl yn yr Atodlen yn gymwys caiff Gweinidogion Cymru benderfynu na fydd ymgynghoriad o’r fath yn cael ei gynnal.

Personau i ymgynghori â hwy

4.—(1) Ac eithrio pan fo paragraff (2) yn gymwys rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ar y cyfarwyddyd mewn drafft â’r canlynol—

- (a) pob awdurdod lleol yng Nghymru;
- (b) cyrff llywodraethu pob ysgol wirfoddol a gynorthwyr a phob ysgol sefydledig yng Nghymru;
- (c) cyrff llywodraethu 10% o bob ysgol gymunedol, ysgol wirfoddol a reolir ac ysgol feithrin a gynhelir;
- (d) Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru;
- (e) Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru;
- (f) y corff crefyddol priodol ar gyfer pob ysgol a gynhelir yng Nghymru ag iddi gymeriad crefyddol;
- (g) Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig;
- (h) Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru;
- (i) Comisiynydd Plant Cymru; a

“appropriate religious body” (“*corff crefyddol priodol*”) means—

- (a) in the case of a Church in Wales school or a Roman Catholic Church school, or proposed such school, the appropriate diocesan authority, and
- (b) in the case of other schools or proposed schools, the body representing the religion or religious denomination stated, or that it is intended to be stated, in relation to the school in an order under section 69(3) of the School Standards and Framework Act 1998.

Consultation

3.—(1) The period and method of the Welsh Ministers’ consultation must be in accordance with the table in the Schedule.

(2) In the case of doubt as to the date the Welsh Ministers received notice of the event or circumstances leading to the direction the date will be deemed to be such date as the Welsh Ministers reasonably determine.

(3) Where row 5 of the table in the Schedule applies the Welsh Ministers may determine that no such consultation will be carried out.

Persons to be consulted

4.—(1) Except where paragraph (2) applies the Welsh Ministers must consult on the direction in draft with—

- (a) all local authorities in Wales;
- (b) the governing bodies of all voluntary aided and foundation schools in Wales;
- (c) the governing bodies of 10% of all community, voluntary controlled and maintained nursery schools;
- (d) the Welsh Local Government Association;
- (e) the Association of Directors of Education in Wales;
- (f) the appropriate religious body for all maintained schools in Wales with a religious character;
- (g) the Catholic Education Service;
- (h) Her Majesty’s Inspectorate of Education and Training in Wales;
- (i) the Children’s Commissioner for Wales; and

(j) pob corff sy'n cynrychioli buddiannau aelodau o staff ysgolion a gynhelir yng Nghymru.

(2) Pan fo Gweinidogion Cymru yn cynnal ymgynghoriad yn unol â rhes 5 o'r tabl yn yr Atodlen rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ag unrhyw bersonau y maent yn eu hystyried yn briodol.

(j) all bodies representing the interests of members of staff of maintained schools in Wales.

(2) Where the Welsh Ministers carry out a consultation in accordance with row 5 of the table in the Schedule the Welsh Ministers must consult with such persons as they consider appropriate.

Huw Lewis

Y Gweinidog Addysg a Sgiliau, un o Weinidogion Cymru

4 Mehefin 2014

Minister for Education and Skills, one of the Welsh Ministers

4 June 2014

YR ATODLEN Rheoliad 3

Cyfnod a dull ymgynghori

<i>Y cyfnod hysbysu a gaiff Gweinidogion Cymru am y dyddiadau tymhorau yr effeithir arnynt gan y digwyddiadau neu'r amgylchiadau sy'n arwain at y cyfarwyddyd</i>	<i>Y cyfnod ymgynghori ar y cyfarwyddyd</i>	<i>Y dull ymgynghori ar y cyfarwyddyd</i>
1 flwyddyn neu'n fwy	O leiaf 12 wythnos	Drwy gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru a thrwy unrhyw ffyrdd eraill, os oes rhai, y mae Gweinidogion Cymru yn eu hystyried yn briodol
1 flwyddyn neu'n llai ond yn fwy na 6 mis	O leiaf 6 wythnos	Drwy gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru
6 mis neu'n llai ond yn fwy na 3 mis	O leiaf 3 wythnos	Drwy gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru
3 mis neu'n llai ond yn fwy na 4 wythnos	O leiaf 1 wythnos	Drwy gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru
4 wythnos neu'n llai	Unrhyw gyfnod ymgynghori, os oes un, y mae Gweinidogion Cymru yn rhesymol yn ei ystyried yn briodol	Unrhyw ddull ymgynghori, os oes un, y mae Gweinidogion Cymru yn ei ystyried yn briodol

©©Hawlfraint y Goron 2014

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

SCHEDULE Regulation 3

Period and method of consultation

<i>Period of notice the Welsh Ministers have of the term dates affected by the events or circumstances leading to the direction</i>	<i>Period of consultation on the direction</i>	<i>Method of consultation on the direction</i>
1 year or more	At least 12 weeks	By publication on the Welsh Government website and by such other means, if any, as the Welsh Ministers consider appropriate
1 year or less but more than 6 months	At least 6 weeks	By publication on the Welsh Government website
6 months or less but more than 3 months	At least 3 weeks	By publication on the Welsh Government website
3 months or less but more than 4 weeks	At least 1 week	By publication on the Welsh Government website
4 weeks or less	Such period of consultation, if any, as the Welsh Ministers reasonably consider appropriate	Such method of consultation, if any, as the Welsh Ministers consider appropriate

© Crown copyright 2014

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2014 Rhif 1462 (Cy. 143)

2014 No. 1462 (W. 143)

ADDYSG, CYMRU

EDUCATION, WALES

Rheoliadau Addysg (Ymgynghori
ar Ddyddiadau Tymhorau Ysgol)
(Cymru) 2014

The Education (Consultation on
School Term Dates) (Wales)
Regulations 2014

£6.00

W1977/06/14

ON

ISBN 978-0-348-10950-4



9 780348 109504